Annwyl Cyfarwyddwr

**Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol**

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bro Morgannwg yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan ein harolygiad o'r Gwasanaethau Plant ym mis Mai 2018 a gweithgarwch gwerthuso perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys gweithgaredd â ffocws ym mis Chwefror 2019, a oedd yn ystyried y Pwynt Mynediad Unigol ar gyfer y gwasanaethau oedolion ac yn adolygu cynnydd y gwasanaeth Swyddog Adolygu Annibynnol, maes i'w wella a nodwyd yn yr arolygiad.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol ar 9 Ebrill 2019.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Caerfyrddin
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Heol Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7303
CIWLocalAuthority@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Carmarthen Office
Welsh Government
Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen
SA31 3BT
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Gwelsom staff rheng flaen brwdfrydig a ddywedodd eu bod yn fodlon yn eu swyddi yn ein harolygiad o'r gwasanaethau plant. Gwelsom fod hyfforddiant da yn cael ei ddarparu a bod cymorth da gan y rheolwyr ar bob lefel, gan gynnwys sesiynau goruchwylio rheolaidd. Roedd y nifer fawr o swyddi gwag ar adeg ein harolygiad yn effeithio ar ansawdd y gwasanaeth i blant a theuluoedd. Roedd cynlluniau eisoes ar waith i ailstrwythuro'r gwasanaethau plant ac mae hyn bellach wedi digwydd. Mae hyn wedi lliniaru'r pwysau ar dimau penodol er bod llenwi pob swydd yn parhau i fod yn her ac mae staff asiantaeth yn cyflenwi ar gyfer swyddi gwag.

Ar y cyfan, roedd yr ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion. Yn yr adroddiad ar yr arolygiad o'r gwasanaethau plant, awgrymwyd y dylai'r awdurdod lleol geisio sicrwydd bod prosesau i wneud penderfyniadau ar ailatgyfeiriadau yn gadarn ac mae'n rhaid i asesiadau a amlygir ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael o gysylltiadau blaenorol, a chynnwys unrhyw risgiau. Nid oedd ymarferwyr a rheolwyr llinell yn cofnodi penderfyniadau a wnaed yn llawn bob amser.

Yn y gwasanaethau oedolion, gwelsom fod pwysau sylweddol ar ofal cartref oherwydd diffyg adnoddau ac mae hyn yn parhau i effeithio ar bobl y mae angen gofal arnynt, gan gynnwys rhai sy'n methu gadael yr ysbyty oherwydd oedi. Mae uwch-reolwyr wedi ein sicrhau bod hyn yn brif flaenoriaeth iddynt a'u bod yn archwilio pob opsiwn i fynd i'r afael â gallu'r farchnad.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gwella ei lety preswyl ei hun er mwyn gwella'r amgylchedd gofal ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Mae hefyd yn bwriadu gwella gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer pobl sydd â dementia sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.

Mae cymorth corfforaethol cryf i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gwneud mwy o gynnydd yn ddiweddar gyda'i gronfa ddata newydd ar gyfer rheoli achosion. O ganlyniad, bydd yn gallu darparu gwybodaeth lawer gwell am reoli perfformiad a llywio cynllunio strategol er budd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

- Pobl – llais a rheolaeth

Yn yr arolygiad o'r gwasanaethau plant, gwelwyd bod lle i wella'r ffordd y mae ymarferwyr yn ymgysylltu â phlant a theuluoedd er mwyn sicrhau bod eu barn a'r canlyniadau roeddent am eu cyflawni wrth wraidd asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth. Byddai teuluoedd yn elwa ar ddull gweithredu mwy cydgynhyrchiol sy'n dechrau gyda chryfderau'r teuluoedd ac yn darparu manylion clir am y ffordd y dylid mesur cynnydd. Roedd lle hefyd i wella'r ffordd yr ymgysylltwyd â theuluoedd yn y system ddiogelu, gan ystyried risgiau, cryfderau a rhwystrau.

Nid oedd plant a oedd yn derbyn gofal yn mynychu eu cyfarfodydd adolygu yn rheolaidd ac nid oedd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn goruchwylio plant yn ddigonol nac yn gofyn am eu barn, sy'n rhan ganolog o'u rôl. Gwnaethom ddychwelyd ym mis Chwefror 2019 i

adolygu gwasanaeth y Swyddogion Adolygu Annibynnol ac, ar y cyfan, gwelsom ei fod yn faes i'w wella o hyd. Fodd bynnag, roedd cynllun gweithredu ar waith a gwaith yn cael ei wneud i foderneiddio'r gwasanaeth.

Mae mwy o bobl yng Nghyngor Bro Morgannwg yn rheoli eu gofal eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol nag o'r blaen. Yn benodol, mae mwy o oedolion ag anableddau dysgu yn dewis yr opsiwn hwn sy'n caniatáu mwy o reolaeth a hyblygrwydd i'r person o ran y gofal mae'n ei dderbyn. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi bod yn treialu ffordd wahanol o ddarparu gofal cartref sy'n rhoi mwy o reolaeth i bobl. Fel y byddem yn ei ddisgwyl gan beilot, mae'r model gofal cartref hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae'n destun diwygiadau cyn iddo gael ei roi ar waith yn llawn. Edrychwn ymlaen at glywed canfyddiadau'r adolygiad.

Mae'r fforwm Mwy na Geiriau yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhannu gwybodaeth ar draws y rhanbarth. Mae'r awdurdod lleol yn darparu sesiynau rhagflas a hyfforddiant iaith Gymraeg wedi'i deilwra i'r staff gofal cymdeithasol ac mae'n cefnogi'r staff i ddilyn yr hyfforddiant yn ystod amser gwaith.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Atal

Yn ystod yr arolygiad o'r gwasanaethau plant, gwelsom fod y plant yn cael eu hamddiffyn gan ddulliau ymateb prydlon ac asesiadau amserol.

Gwelwyd gostyngiad diweddar yn amseroldeb asesiadau (Hydref-Rhagfyr 2018). Mae uwch-reolwyr yn dadansoddi'r data yn hyn o beth ac yn datblygu dulliau gweithredu wedi'u targedu er mwyn gwella.

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg gynlluniau i wella'r cymorth i blant a theuluoedd yn sylweddol er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen trefniadau gofal ar blant ac i liniaru'r straen yn y cartref. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol gyda'r nod o ddatblygu gwasanaethau newydd a fydd yn cynnwys cymorth uniongyrchol i deuluoedd, darpariaeth therapiwtig ar gyfer plant a hyfforddiant i ymarferwyr er mwyn datblygu eu sgiliau gwaith uniongyrchol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn ystyried modelau gwaith cymdeithasol a fyddai'n uno ei ddull gweithredu ar gyfer plant a theuluoedd. Gallai'r datblygiadau posibl hyn arwain at ganlyniadau gwell i blant a theuluoedd gyda'r gwelliannau a wnaed i ddarpariaeth gwasanaethau.

Mae gan y Pwynt Mynediad Unigol lif gwaith clir i annog a galluogi ymateb di-dor i oedolion y mae angen gwybodaeth, cyngor a chymorth arnynt. Mae'r uwch-reolwyr wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddatblygu'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n cynnwys adnodd cadarn a sylweddol o weithwyr proffesiynol amlasiantaeth wedi'u cyd-leoli.

Gwelsom fod y rheini a oedd yn ateb y ffôn yn cynnig pwynt cyswllt cyntaf cadarnhaol i bobl a chafodd llawer o faterion eu datrys yn gyflym heb fod angen troi at gymorth statudol. Fodd

bynnag, roedd oedi pan oedd angen cyngor neu asesiad. Roedd rhai pobl yn gorfod aros am ymateb am gyfnodau hir, sawl wythnos mewn rhai achosion, a chafodd hyn effaith negyddol ar brofiad y bobl ac oedi mynediad at adnoddau a gwasanaethau. Ymddengys fod hyn o leiaf yn rhannol o ganlyniad i lefelau staffio a deallwn fod ymarferwyr ychwanegol yno erbyn hyn sydd wedi lleihau'r amser y mae'n rhaid i bobl aros am asesiadau.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y rheini sy'n ymgymryd ag asesiadau cymesur wedi derbyn hyfforddiant i sicrhau bod ganddynt sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd digonol ar gyfer y dasg. Rydym wedi codi'r mater hwn gydag uwch-reolwyr yng Nghyngor Bro Morgannwg. Crëwyd swydd arweinydd tîm gyda chyfrifoldeb am hyfforddiant yn ddiweddar ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda chydweithwyr mewnol ynghylch y posibilrwydd o gael pobl benodol i ateb galwadau ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r awdurdod lleol wedi cryfhau ei adnoddau ataliol drwy ddatblygu ei gysylltiad â'r trydydd sector ymhellach a phenodi Swyddogion Ymweld, a fydd yn cyd-fynd â gwaith y Cysylltwyr Cymunedol. Mae'r adnoddau hyn yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo a galluogi annibyniaeth pobl heb orfod troi at wasanaethau statudol. Mae'n destun siom i Gyngor Bro Morgannwg nad yw nifer y bobl sydd wedi manteisio ar y gwasanaeth teleofal (technoleg gynorthwyol) wedi cyrraedd y targed blynyddol, er bod y niferoedd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r uwch-reolwyr yn chwilio am ffyrdd o hyrwyddo'r defnydd o'r dechnoleg hon gan niferoedd uwch o bobl.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

- Partneriaethau

Wrth arolygu gwelsom fod dewis cyfyngedig o leoliadau maethu yn cyfrannu at leoliadau'n chwalu i blant. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithio'n rhanbarthol ac yn lleol i gynyddu nifer y gofalwyr maeth gyda'r uwch-reolwyr yn cydnabod y ffaith bod diffyg digonolrwydd lleoliadau yn parhau i effeithio ar y dewis o leoliadau sydd ar gael a'u haddasrwydd ar adegau. Mae Cyngor Bro Morgannwg hefyd wedi bod yn gweithio gyda darparwr gofal preswyl er mwyn cefnogi mwy o blant yn agosach i gartref. Niferoedd cymharol isel o bobl ifanc mewn gofal preswyl sydd gan yr awdurdod lleol o hyd, ond mae'n cydnabod bod diffyg lleoliadau i blant ag anghenion cymhleth yn golygu bod achlysuron pan nad yw'n gallu diwallu anghenion plant yn agos i gartref. Mae'n gadarnhaol bod yr uwch-reolwyr hefyd yn cynnal trafodaethau â darparwyr trydydd sector i annog datblygiad adnodd newydd.

Gwnaethom nodi bod dull gweithredu amlasiantaeth cryf ar waith wrth weithio gyda'r rheini sydd wedi gadael gofal a phobl ifanc sy'n ddigartref. Mae cydberthnasau adeiladol gyda'r

adran tai a'r trydydd sector wedi arwain at ddarpariaeth dda iawn o lety a chymorth i'r bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed. Roedd y rhai sy'n gadael gofal yn gadarnhaol iawn am yr help a gânt gan Ymgynghorwyr Personol.

Ar y cyfan, roedd system gadarn o baneli amlasiantaeth yn sicrhau bod prosesau cyson ac effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y gwasanaethau plant, er y gwnaethom atgoffa'r awdurdod lleol bod angen iddo sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer rhoi plant mewn lleoliadau y tu allan i'w ardal yn ddigon cadarn ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer y gwasanaethau oedolion yn 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn. Bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl yn yr arolygiad thematig o'r gwasanaethau plant. Os caiff eich awdurdod lleol ei ddewis i gael ei gynnwys yn y rhaglen hon, byddwch yn cael pedair wythnos o rybudd o ddyddiad yr arolygiad.

Byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â'r arolygiadau thematig a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Bydd AGC yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i adolygu meysydd a nodwyd yn yr hunanwerthusiad o waith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2019. Caiff adroddiad cenedlaethol thematig ei gyhoeddi ar ôl i'r arolygiadau a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau.

Tua diwedd 2019, byddwn yn treialu arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Caiff yr arolygiad ar y cyd ei arwain gan AGC mewn partneriaeth ag AGIC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC yn 2019/20 i arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Bydd AGC yn cymryd camau dilynol i adolygu argymhellion a wnaed yn ystod adolygiad thematig ar y cyd AGIC ac AGC o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol fel rhan o gyfarfodydd rhwng pennaeth y gwasanaeth ac awdurdodau lleol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Byddwn hefyd yn ymgymryd â dau weithgaredd â ffocws yn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn a chaiff manylion y rhain eu cadarnhau.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir

Sharon Eastlake
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.
SAC
AGIC
Estyn